

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

27ain Gorffennaf, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod arbennig o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 2ail AWST, 2021**, am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Bryncroes. Byddwn yn ddiolchgar iawn os y gall pawb gadw at y rheolau COFID, e.e. gwisgo mwgwd, diheintio, cadw pellter cymdeithasol a.y.

R H A G L E N

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
2. **YMDDIHEURIADAU**
3. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

'Rydym wedi derbyn cadarnhad gan Reolwr Meddygfa Rhydbach ei fod yn barod i gyfarfod yr Is-bwyllgor a enwyd yng nghyfarfod 10fed Mai, 2021 (Cadeirydd, Is-Gadeiryddes, Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, a'r Clarc). Trefwyd y cyfarfod ar gyfer prynhawn lau, 5ed Awst, 2021.

Er sicrhau fod yr Is-bwyllgor yn rhoddi oll o'r pwyntiau yr hoffai'r Cyngor eu codi gyda'r Rheolwr/Meddygon, teimlwyd mai gwell fyddai cyfarfod er sicrhau hynny.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

- (a) Cais C21/0666/32/LL – adeilad amaethyddol arfaethedig i orchuddio clamp silwair - Crugeran, Sarn Mellteyrn.
- (b) Cais C21/0667/32/LL – adeilad amaethyddol arfaethedig dros glamp silwair presennol - Crugeran, Sarn Mellteyrn.
- (c) Cais C21/0703/32/TC – defnyddio carafan sefydlog fel llety gwyliau – Fferm Gelliwig, Botwnnog.

6. **POLISI IAITH CYNGHORAU CYMUNED A THREFF**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Glarc Cyngor Tref Nefyn y bwriedir cynnal cyfarfod ar 'zoom' yn ystod mis Awst i drafod yr uchod. Bydd angen cael gwybodaeth pwy fydd a diddordeb yn mynychu'r cyfarfod fel y gellir anfon y linc drwodd pan y'i derbynir.

Yn gywir,


Clarc

AELODAETH Y CYNGOR Y CYNGHORWYR

David Brunelli
Gwenan Griffith
Glyn Roberts
Glenys Williams

Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Michael Strain
Siôn Williams

Elin Hughes
Ifor Owen
Carys E. Williams